Healthy Air
Awyr Iach
Cymru

**MANIFFESTO AWYR IACH CYMRU 2026**

**Yn 2021 cefnogodd pob plaid ddeddfwriaeth arloesol i lanhau ein haer. Ar gyfer 2026, mae gennym ni un gofyniad – cyflawni'r addewid hwn drwy weithredu Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.**

Byddai gweithredu'r ddeddf hon yn:

1. Lleihau llygredd cerbydau
   - Sicrhau bod gan holl drigolion Cymru fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd, fforddiadwy a hygyrch.
   - Cyflwyno'r fenter strydoedd ysgol yn genedlaethol, gan sicrhau mynediad digonol i fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd angen teithio mewn tacsi.
   - Gwella seilwaith i hwyluso teithio llesol i'r ysgol lle nad yw strydoedd ysgol yn ymarferol.
   - Gweithredu Parthau Aer Glân gydag ystyriaeth ofalus i grwpiau dan anfantais economaidd a phobl anabl.
   - Cyflwyno cosbau digonol ar gyfer segura cerbydau.

2. Lleihau llygredd diwydiannol a gwledig
   - Datblygu strategaethau diwydiannol a gwledig sy'n ceisio lleihau effaith llygredd aer.
   - Sicrhau bod diwydiannau a busnesau yn ystyried trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer staff.
   - Cyflwyno Ardoll Parcio yn y Gweithle i atal pobl sy'n gyrru i'r gwaith.
   - Cyflwyno cynlluniau sgrapio i helpu busnesau a ffermwyr i ddatgarboneiddio cerbydau.

3. Mynd i'r afael â llosgi domestig
   - Gwahardd gosod stofiau newydd mewn cartrefi ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig.
   - Dileu llosgi coed domestig mewn ardaloedd trefol, cynorthwyo trigolion gwledig i symud oddi wrth bren fel prif ffynhonnell wresogi, a chefnogi'r rhai mewn tlodi tanwydd gyda chymorth cost tanwydd.
   - Cyflwyno Ardaloedd Rheoli Mwg (SCAs) ledled y wlad gydag eithriadau ar gyfer cymunedau gwledig yn unig.

4. Cynyddu ymwybyddiaeth o lygredd aer
   - Datblygu cyfres o ymgyrchoedd newid ymddygiad ar drafnidiaeth gynaliadwy, segura cerbydau, llosgi domestig a pheryglon iechyd cyffredinol llygredd tu fewn a thu allan a gwerthuso'r effaith.
   - Defnyddio rhybuddion iechyd cyhoeddus fel bod pobl sy'n byw ym mhob rhan o Gymru yn ymwybodol o lefelau llygredd lleol a sut i leihau'r effaith ar eu hiechyd.
   - Dylai sector cyhoeddus Cymru arwain drwy esiampl, gan gefnogi staff i wneud newidiadau cadarnhaol a lleihau llygredd aer mewn cerbydau ac adeiladau.

5. Gwella monitro
   - Sefydlu rhwydwaith monitro sy'n defnyddio'r holl ddata lleol a chenedlaethol wedi'i fodelu a'i fonitro.
   - Galluogi data llygredd aer i fod yn ffynhonnell agored ac yn hygyrch i bawb.
   - Ariannu'r gwaith o gyflwyno monitorau PM2.5 a NO2 ym mhob ysgol ac adeiladau'r GIG a rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gau neu ddargyfeirio ffyrdd pan fydd llygredd aer ger ysgolion yn fwy na'r terfynau.

**Pwy ydym ni**

Mae Awyr Iach Cymru (HAC) yn dwyn ynghyd sefydliadau sy'n rhannu gweledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru lanach a gwyrddach. Rydyn ni eisiau i'n cenedl fod yn lle gwell, lle mae gan bobl yr hawl i anadlu aer glân a lle nad oes rhaid iddynt ddioddef o effeithiau niweidiol llygredd aer.

Rydym ni'n codi ymwybyddiaeth o effaith ansawdd aer gwael ar ein bywydau bob dydd. Ein nod yw llunio'r sgwrs yng Nghymru am sut rydym ni'n mynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi; i gyflwyno'r achos o blaid datrysiadau lleol ymarferol i leihau llygredd aer.

Ein haelodau yw Asthma + Lung UK Cymru, British Heart Foundation Cymru, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Plant yng Nghymru, Rhaglen Aer Glân, Client Earth, Cycling UK Cymru, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Living Streets Cymru, Ramblers Cymru, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru, Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru, Sustrans Cymru, Transport Action Network Cymru.

**Creu Cymru Iachach**

Mae llygredd aer yn cyfrannu at bron i 2,000 o farwolaethau cynnar ac yn costio bron i £1 biliwn i GIG Cymru bob blwyddyn. Mae teuluoedd ledled Cymru yn gweld effaith llygredd aer ar eu bywydau bob dydd. Rydym ni'n gweld mwy a mwy o blant yn datblygu asthma, nid yw eu hysgyfaint yn datblygu fel y dylent fod, ac mae cyflyrau iechyd presennol pobl yn gwaethygu.

I bobl agored i niwed, gall hyd yn oed cynnydd sydyn dros dro yn y tymor byr mewn llygredd aer effeithio ar eu hiechyd, sy'n gadael llawer o bobl angen triniaeth ysbyty brys. Mae amlygiad hirdymor hefyd yn cynyddu'r risg o ddatblygu cyflyrau fel clefyd y galon, dementia, canser yr ysgyfaint, diabetes a mwy. Mae iechyd meddwl pobl yn dioddef hefyd, gydag ymchwil yn dangos bod ansawdd aer gwael yn gysylltiedig â lefelau uwch o iselder, anhwylder deubegynol, a sgitsoffreniaRhaid i wella iechyd y cyhoedd fod ar flaen y gad yn ein brwydr i leihau llygredd aer a chreu dyfodol iachach, cynaliadwy i bawb.

**Dyfodol Glanach a Gwyrddach**

Newid yn yr hinsawdd yw'r broblem fwyaf sy'n wynebu ein cenhedlaeth. Bydd y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud nawr yn cael effeithiau hirdymor ar ein planed a'n hiechyd – felly mae'n hanfodol ein bod yn blaenoriaethu adferiad gwyrdd a theg. Bydd aer glanach yn sicrhau gwell iechyd a lles ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ein hamgylchedd yn rhoi'r aer rydym ni'n ei anadlu, y dŵr rydym ni'n ei yfed, a'r bwyd rydym ni'n ei fwyta. Rydym ni wedi ymrwymo i fynd i'r afael â llygredd aer fel y gallwn ddiogelu'r adnoddau hanfodol hyn a diogelu iechyd pobl.

**Cefnogi Teithio Llesol**

Dydi hi erioed o'r blaen wedi bod mor glir bod y ffordd rydym ni'n teithio yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau'r rhai o'n cwmpas. Er mwyn ein hiechyd a'n planed, ni allwn adael i'r car barhau i dominyddu ein ffyrdd. Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae angen i'n trefi a dinasoedd ddod yn lleoedd glanach, gwyrddach a mwy cynaliadwy i fyw. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu llwybrau teithio llesol diogel, hygyrch a chynhwysol i'r ysgol i blant a sicrhau bod cynllunio trafnidiaeth yn adlewyrchu anghenion y rhai nad ydynt o bosibl yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan seilwaith trafnidiaeth cyfredol, gan gynnwys pobl anabl a theuluoedd ar incwm isel.

**Creu Cymunedau Tecach**

Mae gan bawb yr hawl i anadlu aer glân ac iach. Rydym ni i gyd yn cael ein heffeithio gan lygredd aer, ond mae rhai unigolion a chymunedau yn cael eu heffeithio mwy nag eraill. Mae plant, er enghraifft, yn arbennig o agored i niwed oherwydd eu bod yn anadlu mwy o aer nag oedolion yn gymesur â phwysau eu corff ac yn anadlu'n agosach at ffynonellau llygredd aer ar lefel y ddaear. Mae angen camau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn, diogelu iechyd pobl a galluogi pobl a busnesau i leihau eu cyfraniad at y broblem. Gyda'n gilydd, gallwn wneud y newidiadau angenrheidiol i adeiladu dyfodol tecach i bawb.